**Ymateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

**Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg**

## Cyffredinol

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor am eu hadroddiad. Fel y gwyddant, cyhoeddais yn ddiweddar ei bod yn fwriad gennyf drosglwyddo swyddogaethau, asedau a staff y tri Bwrdd Draenio Mewnol sy'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru i Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hynny'n fodd i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cwbl newydd, o'r safon y byddem i gyd yn ei ddisgwyl oddi wrth gyrff cyhoeddus, yn cael eu sefydlu ar gyfer y swyddogaethau hynny. Bydd yn fodd hefyd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd am y berthynas rhwng gwahanol gyrff.

Yn y cyd-destun hwnnw, felly, yr wyf wedi mynd ati i ymateb i'r argymhellion unigol (gweler isod).

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau clir ar atebolrwydd Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru.**

***Derbyn mewn egwyddor.***

*Rwyf yn cytuno bod angen canllawiau o'r fath, ac maent ar gael eisoes.*

*Yn achos Bwrdd Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg, darperir ar gyfer "Governance and Accountability in Internal Drainage Boards in England: A Practitioners Guide 2006" yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r canllaw hwnnw'n glir am yr hyn a olygir wrth arferion priodol ac mae iddo statws statudol. Gall aelodau o Gymdeithas yr Awdurdodau Draenio weld rhagor o ganllawiau manwl am yr hyn a olygir wrth arferion priodol, yn ogystal â dogfennau enghreifftiol, ar wefan y Gymdeithas honno. Mae Bwrdd Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg yn aelod gweithredol o Gymdeithas yr Awdurdodau Draenio, ac ers i Swyddfa Archwilio Cymru gyhoeddi ei hadroddiad, mae'r Bwrdd wedi bod yn cymryd camau i sicrhau y bydd yn cyrraedd y safonau hynny.*

*O dan y trefniadau presennol, mae Byrddau Draenio Mewnol yn atebol i'w Byrddau unigol eu hunain, a chaiff aelodau'r Byrddau hynny eu penodi gan dirfeddianwyr ac awdurdodau lleol, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth. Nid oes gan Lywodraeth Cymru bwerau uniongyrchol yn hyn o beth, heblaw am bwerau i ddeddfu er mwyn newid y trefniadau. Fel y nodir uchod, rydym wedi datgan ein bwriad i ddefnyddio'r pwerau hynny, a bydd y trefniadau newydd yn fodd i sicrhau bod fframwaith priodol a chadarn yn cael ei sefydlu.*

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn pennu fframwaith clir ar gyfer cydweithio rhwng Byrddau Draenio Mewnol, a sefydliadau eraill sy’n atebol i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru, mewn perthynas â rheoli’r perygl o lifogydd. Dylai'r fframwaith hwn gynnwys manylion am rolau a chyfrifoldebau pob sefydliad.**

***Derbyn***

*Fel y crybwyllwyd uchod, mae rolau a chyfrifoldebau'n cael eu nodi mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, a fydd yn cael ei disodli pan drosglwyddir y rolau a'r cyfrifoldebau hynny i Gyfoeth Naturiol Cymru. Byddaf yn sefydlu gweithgor ar y cyd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Byrddau Draenio Mewnol i oruchwylio'r broses drosglwyddo.*

**Argymhelliad 3. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu trefniadau llywodraethu Byrddau Draenio Mewnol sy’n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru a bod system o fonitro trefniadau llywodraethu, gan gynnwys prosesau caffael a rheoli ariannol, yn cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn dryloyw ac yn cyd- fynd â'r arfer gorau mewn rhannau eraill o’r sector cyhoeddus a bod dogfennau a chynlluniau priodol ar waith.**

***Derbyn***

*Rwyf wedi cyhoeddi fy mwriad i ddefnyddio'r pwerau a roddwyd i Weinidogion Cymru yn Neddf Cyrff Cyhoeddus 2011 i drosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru swyddogaethau pob un o'r Byrddau Draenio Mewnol sy'n bennaf neu’n gyfan gwbl yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y ddau Fwrdd Draenio Mewnol trawsffiniol. Ar hyn o bryd, mae'r trefniadau archwilio ar eu cyfer hwy o fewn awdurdodaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Bydd angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol er mwyn trosglwyddo'r ddau gorff trawsffiniol.*

*Unwaith y trosglwyddir swyddogaethau’r byrddau hyn, byddant yn dod o dan yr un trefniadau llywodraethu, yr un mesurau rheoli ariannol a'r un trefniadau archwilio â Chyfoeth Naturiol Cymru. Rwyf o'r farn y bydd hynny'n fodd i fynd i'r afael yn llawn â'r materion y cyfeirir atynt yn yr argymhelliad.*

*Yn y cyfamser, materion yw'r rhain ar gyfer y Bwrdd Draenio Mewnol ei hun. O ran hynny, rwyf wedi cael gwybod bod Bwrdd Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg wedi bod yn gweithio i wella'r sefyllfa a'i fod wedi gwneud cynnydd yn hynny o beth.*

**Argymhelliad 4. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru a chyrff cyhoeddus bach eraill i sicrhau bod trefniadau atebolrwydd clir ar waith ar gyfer eu gweithgareddau cyhoeddus, gan gynnwys cynnal gwefannau. (Tudalen 20)**

***Derbyn mewn egwyddor***

*Mae llinellau atebolrwydd ar gyfer Byrddau Draenio Mewnol yn cael eu nodi yn adran 1 o Ddeddf Draenio Tir 1991 ac yn atodlenni 1 a 2 i'r Ddeddf honno. Mae swyddogion y Byrddau Draenio Mewnol yn atebol i'r Byrddau hynny, sy'n cynnwys cyfuniad o aelodau a benodir gan yr awdurdodau codi tâl (yr awdurdodau lleol, yn ymarferol), ac aelodau a etholir gan y rheini yn yr ardal lle codir y tâl.*

*Er ei bod yn amlwg nad yw'r trefniant hwn yn foddhaol, nid oes gennyf unrhyw bwerau i newid y sefyllfa uchod mewn perthynas â Byrddau Draenio Mewnol heb gyflwyno deddfwriaeth, ac rwyf wedi cyhoeddi ei bod yn fwriad gennyf wneud hynny.*

*O ran 'cyrff bach eraill', mae Llywodraeth Cymru, ar ôl trafod y mater gyda Swyddfa Archwilio Cymru, yn diffinio'r rhain, yn bennaf, fel y 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Y llinell atebolrwydd glir ar gyfer y cyrff hyn, yn anad dim, yw'r broses ddemocrataidd, a'u hymwneud a'u perthynas gyda'r prif gynghorau yng Nghymru.*

*Ym mis Chwefror 2013, dyrannodd Llywodraeth Cymru swm o £1.125 miliwn i'r prif gynghorau, a hynny ar ffurf grantiau wedi'u neilltuo. Roedd y swm hwnnw'n cynnwys £375,000 i gynghorau tref a chymuned sefydlu a datblygu gwefannau. Nodwyd yn glir yn y llythyrau dyfarnu grant a anfonwyd at y 22 o brif gynghorau fod yr arian hwnnw i'w ddefnyddio gan gynghorau tref a chymuned i wella'u cyhoeddiadau ac i ddatblygu darpariaeth ar y rhyngrwyd.. Pennwyd yn y llythyrau hynny hefyd mai'r dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith oedd 31 Mawrth 2014.*

*Ategwyd hynny gan y darpariaethau ym Mil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). Daeth y Bil hwnnw'n gyfraith ar 30 Gorffennaf 2013, ac mae Adran 55 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned sefydlu gwefan a chynnwys gwybodaeth benodol yn ymwneud â chontractau'r cyngor, yn ogystal â manylion am aelodau'r cyngor, cofnodion cyfarfodydd a datganiadau archwiliedig o gyfrifon.*

**Argymhelliad 5. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailgyhoeddi canllawiau ar Lywodraethu, gan dynnu sylw at y problemau a gafwyd ym Mwrdd Draenio Mewnol Cil-y coed a Gwynllŵg er mwyn dangos yr hyn all fynd o'i le. (Tudalen 21)**

***Derbyn***

*Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio wedi cyhoeddi canllawiau ar lywodraethu da ar gyfer cynghorau tref a chymuned. Hefyd, mae Un Llais Cymru, sef y corff sy'n cynrychioli cynghorau cymuned a thref yng Nghymru, a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol, wedi mynd ati ar y cyd i gyhoeddi eu canllawiau eu hunain ar gyfer cynghorau. Mae'r holl ganllawiau hyn ar gael ar*

*y rhyngrwyd. Byddwn yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn i sicrhau bod cynghorau yn cael eu hatgoffa am y canllawiau sydd ar gael, ac am y casgliadau yn yr adroddiad am y Bwrdd Draenio Mewnol.*

**Argymhelliad 6. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas yr Awdurdodau Draenio a chyrff priodol eraill i adolygu Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru o ran eu maint, eu cyfansoddiad a'r ffordd y maent yn gweithio, yn ogystal â Byrddau cyrff cyhoeddus bach eraill.** (Tudalen 25)

***Derbyn***

*Rwyf wedi ystyried y mater hwn yng nghyd-destun y Byrddau Draenio Mewnol, ac wedi dod i'r casgliad y byddai'n well cyflwyno trefniadau newydd yn y dyfodol. Ymdriniais â'r mater hwn yn fy natganiad ysgrifenedig ar 12 Tachwedd.*

*O ran cynghorau tref a chymuned, cyfrifoldeb Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, ar y cyd â'r 22 o brif gynghorau, yw eu hadolygu hwy.*

*Mae'n bosibl y bydd adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, sydd ar fin cael ei gyhoeddi, yn effeithio ar faint cynghorau tref a chymuned. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r adroddiad hwnnw, ac i'r casgliadau a'r argymhellion a fydd ynddo.*

**Argymhelliad 7. Rydym yn argymell bod Byrddau Draenio Mewnol yn ystyried yr ymrwymiadau eraill sydd gan eu Haelodau (yn enwedig Aelodau a Benodir gan Awdurdodau Lleol) pan fyddant yn paratoi agendâu ac yn trefnu cyfarfodydd er mwyn sicrhau gwell presenoldeb. (Tudalen 25)**

*Mater i'r Byrddau Draenio Mewnol yw'r argymhelliad hwn.*

**Argymhelliad 8. Rydym yn argymell, pan eir ati i ddatblygu systemau ar gyfer monitro trefniadau llywodraethu Byrddau Draenio a chyrff cyhoeddus bach eraill, y dylid ystyried systemau ar gyfer monitro perfformiad Aelodau Penodedig, yn enwedig y rhai o awdurdodau lleol. (Tudalen 25)**

***Derbyn yn Rhannol***

*Bydd trosglwyddo swyddogaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru yn ateb y diben yn hyn o beth yn achos y Byrddau Draenio Mewnol. Yn y cyfamser, fel yr wyf wedi datgan yn y gorffennol, mae Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwynllŵg wedi cyhoeddi Rheolau a Gweithdrefnau/Rheolau Sefydlog newydd sy'n dilyn y canllawiau a baratowyd gan Gymdeithas yr Awdurdodau Draenio.*

*Yn achos penodiadau i gyrff cyhoeddus bach eraill, cyfrifoldeb yr awdurdod sy'n penodi yw sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro. Mewn achosion pan fo'r cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru yn hyn o beth a phan fo'r penodiad yn dod o dan God Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus, mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru sicrhau bod prosesau rheolaidd, effeithiol a thryloyw yn eu lle ar gyfer asesu perfformiad. Mae'r Cod yn pennu hefyd na ellir ailbenodi unrhyw aelod o gorff cyhoeddus os na fu ei berfformiad yn foddhaol yn ystod tymor ei benodiad.*

**Argymhelliad 9. Rydym yn argymell y dylid ystyried gwella'r prosesau cyfathrebu rhwng Aelodau a Benodir i Fyrddau a'r awdurdodau lleol a gynrychiolir ganddynt. Dylai hynny gynnwys canllawiau ar gyfer Aelodau Penodedig ynglŷn â throsglwyddo pryderon am drefniadau llywodraethu i awdurdod uwch a system adrodd i'w gwneud yn bosibl craffu ar fanylion gweithgareddau'r Bwrdd. (Tudalen 25)**

*Mater i'r awdurdodau lleol priodol yw'r argymhelliad hwn.*

**Argymhelliad 10. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â chyrff cyhoeddus i sicrhau bod taliadau cydnabyddiaeth staff uwch yn gwbl dryloyw a bod y drefn o ystyried cynigion ar gyfer codi cyflog uwch reolwyr yn cyd-fynd â chanllawiau Swyddfa Archwilio Cymru ar lywodraethu da. (Tudalen 30)**

***Derbyn yn Rhannol***

*Ar ôl i'r Ddeddf Democratiaeth gael ei chyflwyno yn 2013, rhaid i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol gynnal proses graffu annibynnol allanol ar y cyflogau a delir i brif weithredwyr ym maes llywodraeth leol. Y corff hwnnw, hefyd, sy'n pennu cyflogau aelodau etholedig ers i Fesur Llywodraeth Leol 2011 gael ei chyflwyno.*

*Pan fo Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am y trefniadau cyflog ar gyfer staff uwch yn y Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ac ar gyfer rheolwyr yn y GIG, mae trefn yn ei lle i sicrhau bod taliadau cydnabyddiaeth yn gwbl dryloyw a bod egwyddorion llywodraethu da yn cael eu dilyn wrth ddyfarnu codiadau cyflog.*

**Argymhelliad 11. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r enghraifft hon i ddangos yr angen i gyrff cyhoeddus gofio pa mor bwysig ydyw i gyfiawnhau gwariant cyhoeddus mewn ffordd glir, gan sicrhau bod achosion busnes clir a chanlyniadau mesuradwy yn sail i benderfyniadau ar ddefnyddio arian cyhoeddus. (Tudalen 31)**

***Cytuno***

*Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn diweddaru "Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru", lle nodir y prif egwyddorion y dylid eu dilyn wrth ymdrin ag adnoddau a ddefnyddir gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y ddogfen hon ar gael i sefydliadau yn y sector cyhoeddus ledled Cymru yn gynnar yn y gwanwyn.*

**Argymhelliad 12. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cydweithio'n agos â Byrddau Draenio Mewnol sy'n gweithredu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod rhaglen gynefino a hyfforddi gadarn ac effeithiol ar waith i aelodau newydd, a bod y rhaglen honno'n cael ei monitro, a bod yr holl aelodau presennol yn cyflawni cynlluniau rheoli perfformiad rheolaidd ac yn cael eu hannog i adolygu eu hanghenion *hyfforddiant. (Tudalen 32)***

***Derbyn***

*Bydd modd mynd i'r afael â'r argymhelliad hwn pan drosglwyddir swyddogaethau, asedau a staff i Gyfoeth Naturiol Cymru o fis Ebrill 2015 ymlaen.*

*Yn y tymor byr, mater yw hwn i'r Byrddau Draenio Mewnol [ac i'r awdurdodau lleol yn achos yr aelodau a benodwyd ganddynt hwy]. Er bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rhoi cyfarwyddyd i Fyrddau Draenio Mewnol ar faterion gweithredol, dim ond mewn perthynas â gwaith sy'n cael ei wneud y mae'n cael gwneud hynny. Felly, nid oes gennyf i, na Chyfoeth Naturiol Cymru ychwaith, y pwerau priodol i wneud y newidiadau hyn heb gyflwyno deddfwriaeth, a dim ond ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol y gellid gwneud hynny ar gyfer y Byrddau Draenio Mewnol trawsffiniol.*

**Argymhelliad 13. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried a oes angen adolygu'r hyfforddiant a ddarperir i Aelodau'r Bwrdd ar gyrff cyhoeddus bach yng Nghymru, gan gynnwys cyrff fel Cynghorau Cymunedol. (Tudalen 33)**

***Derbyn***

*Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd yn 2003 ynglŷn â rôl, swyddogaethau a photensial cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, ychydig iawn o gynghorwyr a chlercod oedd yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddiant. Yn dilyn yr adroddiad hwnnw, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hyfforddiant (sydd bellach o dan gadeiryddiaeth Un Llais Cymru) ac aeth y Grŵp hwnnw ati i ddatblygu Strategaeth Hyfforddiant Genedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r rhaglenni hyfforddiant ac mae cyfran sylweddol o gynghorau wedi manteisio ar y ddarpariaeth honno.*

**Argymhelliad 14. Rydym yn argymell bod Swyddfa Archwilio Cymru yn mynd gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gyda chanlyniadau'r adolygiad o'i methodoleg archwilio a'i chynigion ar sut y mae'n bwriadu gwneud gwelliannau yn y dyfodol. (Tudalen 36)**

*Mater i Swyddfa Archwilio Cymru yw hwn.*

**Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod trefniadau archwilio Byrddau Draenio Mewnol Gwy Isaf a Phowysland yn cyd-fynd â'r rhai sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Bwrdd Draenio Mewnol Gwastadeddau Cil-y-coed a Gwynllŵg. (Tudalen 36)**

***Derbyn***

*Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011 yn gwneud darpariaeth benodol er mwyn i Weinidogion Cymru fedru trosglwyddo Byrddau Draenio Mewnol 'sy'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru' i gorff arall yng Nghymru, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn fwriad ganddi ddefnyddio'r pwerau hynny i drosglwyddo'r byrddau i Gyfoeth Naturiol Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd eu swyddogaethau'n dod o dan y drefn archwilio sydd ar waith yng Nghymru.*

*Fel y nodais yn fy natganiad ysgrifenedig, rwyf yn bwriadu cyflwyno'r newid hwnnw o fis Ebrill 2015 ymlaen, ac amgaeaf amserlen fras ar gyfer y ddeddfwriaeth. Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn cefnogi'r ddeddfwriaeth honno. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwrthod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a fyddai wedi galluogi Llywodraeth y DU i ganiatáu i'r ddau gorff trawsffiniol barhau i ddod o dan y drefn sydd ar waith yn Lloegr hyd nes y trosglwyddir eu swyddogaethau.*

*Gan fod y cyrff hyn yn rhai trawsffiniol, nid oes unrhyw ffordd syml arall o ddod â'r trefniadau archwilio ar gyfer y Byrddau Draenio Mewnol trawsffiniol o dan y drefn sydd ar waith yng Nghymru. Er y gallem ystyried cyflwyno deddfwriaeth o dan adran 108 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006), nid yw'n glir o gwbl bod yr holl swyddogaethau a arferir gan y cyrff hyn yn cael eu harfer mewn perthynas â Chymru. O'r herwydd, pe bai deddf yn cael ei chyflwyno er mwyn trosglwyddo'r swyddogaethau archwilio hynny, mae'n bosibl y byddai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ei herio ar sail cymhwysedd.*

*Hyd yn oed pe bai hynny'n bosibl, byddai angen treulio cryn amser ar waith na fyddai o werth yn y pen draw, o gofio'n bwriad i drosglwyddo'r swyddogaethau i Gyfoeth Naturiol Cymru.*

**Argymhelliad 16. Rydym yn argymell bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn gwneud datganiad ar y posibilrwydd o drosglwyddo swyddogaethau'r Byrddau Draenio Mewnol presennol i Gyfoeth Naturiol Cymru cyn gynted â phosibl. (Tudalen 38)**

**Derbyn**

*Rwyf wedi gwneud datganiad i'r perwyl hwnnw, ac mae copi ohono wedi'i atodi i'r ymateb hwn. Atodir hefyd yr amserlen amlinellol ar gyfer y newidiadau hynny.*

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Trefniadau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru at y Dyfodol** |
| **DYDDIAD** | **12 Tachwedd 2013** |
| **GAN** | **Alun Davies AC, Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd** |

Rwyf wedi penderfynu trosglwyddo swyddogaethau, asedau a staff Byrddau Draenio Mewnol Powysland, Gwy Isaf a Chil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg i Gyfoeth Naturiol Cymru.

Bydd hyn yn hwyluso ffordd fwy integredig o reoli ein cyfoeth naturiol yn y Rhanbarthau Draenio Mewnol. Bydd hefyd yn osgoi dyblygu materion trefniadol, yn sicrhau cadernid ac yn rhoi gwell gwerth am arian. Drwy gynnwys y gwariant hwn yn y fframwaith archwilio ac atebolrwydd y sefydlom ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn datrys, am yr hirdymor, y materion niferus a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynghylch Bwrdd Draenio Mewnol Cil-y-coed a Gwastadeddau Gwynllŵg.

Byddaf yn trafod y materion trawsffiniol o ran Powysland a Gwy Isaf gyda'r Ysgrifennydd Gwladol sydd â chyfrifoldeb dros Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ddechrau paratoi'r gorchmynion angenrheidiol a gwneud gwaith diwydrwydd dyladwy ar drefniadau pensiynau ac asedau yn gysylltiedig â'r Byrddau Draenio Mewnol, gyda'r nod o gyflawni'r trosglwyddiad hwn ym mis Ebrill 2015.

## Amserlen Ddeddfwriaethol Ddrafft

**Amserlen dros dro yn unig yw hon, ond ar hyn o bryd, disgwylir mai dyma fydd y dyddiadau allweddol –**

**Paratoi'r Offeryn Drafft – erbyn 30 Ebrill 2014**

**Anfon y Gorchymyn Drafft a'r Memorandwm Esboniadol at unigolion a chyrff sydd â diddordeb er mwyn iddynt fedru cyflwyno sylwadau yn eu cylch – rhwng 1 Mai ac 1 Awst 2014**

**Gosod yr OS Drafft – 16 Medi 2014**

**Cyflwyno'r cynnig – 10 Chwefror 2015**

**Dyddiad y Cyfarfod Llawn – 17 Chwefror 2015**